OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 861 (Cy. 200)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021

*Gwnaed - - - - 15 Gorffennaf 2021*

*Yn dod i rym - - 1 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau yn adran 97(1) a (2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 98(3)(c)(**2**) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

PROSPECTIVE

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

(**1**) 2018 dccc 2.

(**2**) Mae'r cyfeiriadau yn adran 98(3) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

# RHAN 2

## Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Sylfaenol

### Deddf Llywodraeth Leol 1974

**2.**—(1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 1974(**3**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 5, ym mharagraff 5(2)(b)(**4**), ar ôl "special educational needs (within the meaning given by section 579(1) of the Education Act 1996)" mewnosoder "or additional learning needs (within the meaning given by section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

### Deddf Addysg 1997

**3.**—(1) Mae Deddf Addysg 1997(**5**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 32(6)(a)(**6**), yn lle "special educational needs (as defined in section 312 of the Education Act 1996)" rhodder "additional learning needs (as defined in section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

### Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001

**4.**—(1) Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001(**7**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 8, Rhan 1, hepgorer paragraff 12.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

### Deddf Addysg 2002

**5.**—(1) Mae Deddf Addysg 2002(**8**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(**3**) 1974 p. 7.
(**4**) Diwygiwyd paragraff 5 o Atodlen 5 gan baragraff 63 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6). Mae paragraff 5 hefyd yn cynnwys diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) 1997 p. 44.
(**6**) Mae diwygiadau i adran 32 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) 2001 p. 10.
(**8**) 2002 p. 32.

(2) Yn adran 1(3)(**9**), ym mharagraff (g) o'r diffiniad o "qualifying body", hepgorer "or the National Assembly for Wales".

(3) Yn adran 2(5)(**10**), yn lle "children with special educational needs" rhodder—

"—

(a) in relation to England, children with special educational needs, or

(b) in relation to Wales, persons under 25 with special educational needs."

(4) Ar ôl adran 92 (disgyblion â chynlluniau AIG) mewnosoder—

"**Pupils with Individual Development Plans**

**92A.** The additional learning provision described in an individual development plan prepared or maintained by a local authority in Wales under Part 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 may include provision—

(a) excluding the application of the National Curriculum for England, or

(b) applying the National Curriculum for England with such modifications as may be specified in the plan."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

**Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002**

**6.**—(1) Mae Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(**11**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 36—

(a) yn is-adran (3)(b), yn lle "a statement in respect of the child under section 324 of the Education Act 1996 (c. 56) (special educational needs)" rhodder "an individual development plan maintained for the child under section 14 or 19 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018";

(b) hepgorer is-adran (5)(d) ac (e);

(c) ar ôl is-adran (5)(f) hepgorer "and";

(d) ar ôl is-adran (5)(g) mewnosoder ", and";

(e) ar ôl is-adran (5)(g) mewnosoder—

"(h) section 51 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (duty to favour education for children at mainstream maintained schools).";

(f) yn lle is-adran (6) rhodder—

"(6) The power of the Education Tribunal for Wales under section 71(1) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (decisions on appeals under section 70) is subject to subsection (2) above.";

(g) yn is-adran (7)—

(**9**) Diwygiwyd adran 1 gan baragraff 1 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40). Mae adran 1 hefyd yn cynnwys diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae paragraff (g) o'r diffiniad wedi ei amnewid gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25) ond nid yw'r amnewidiad mewn grym eto.

(**10**) Mae diwygiadau i adran 2 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**11**) 2002 p. 41.

(i) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl "Children and Families Act 2014" mewnosoder ", Part 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018" ac ar ôl "special educational needs" mewnosoder "or additional learning needs";

(ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) the child receiving the additional learning provision called for by the child's additional learning needs,";

(h) yn lle is-adran (9)(b) rhodder—

"(b) the person responsible for education at an accommodation centre may refer a case to a local authority under section 12(2)(a) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 as though—

(i) a child for whom education is provided at the centre under section 29(1)(f) were a child who is a registered pupil at a school, and

(ii) that person were the governing body of the school.";

(i) hepgorer is-adran (9)(c).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

**Deddf Addysg 2005**

**7.**—(1) Mae Deddf Addysg 2005(**12**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 28(**13**), hepgorer is-adrannau (2)(d) a (4)(d).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

**Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006**

**8.**—(1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**14**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 16(1)(c)(**15**), ar ôl "section 324 of EA 1996 (statement of special educational needs)" mewnosoder "or an individual development plan under section 14 or 19 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018".

(3) Yn adran 88(5), hepgorer "or the Assembly" yn y ddau le y mae'n digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

(**12**) 2005 p. 18.
(**13**) Mae diwygiadau i adran 28 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**14**) 2006 p. 40.
(**15**) Diwygiwyd adran 16 gan baragraff 81 o Atodlen 3(2) i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Mae diwygiadau eraill i adran 16 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

### Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**9.**—(1) Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015(**16**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 57(5)(a), ar ôl "anghenion addysgol arbennig" mewnosoder "neu anghenion dysgu ychwanegol".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

### Deddf Cymru 2017

**10.**—(1) Mae Deddf Cymru 2017(**17**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 59(1), yn lle paragraff (d) rhodder—

"(d) the Education Tribunal for Wales or Tribiwnlys Addysg Cymru;".

(3) Hepgorer adran 62(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

### Deddf y Coronafeirws 2020

**11.**—(1) Mae Deddf y Coronafeirws 2020(**18**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 17, Rhan 1, paragraff 7(5)(**19**), ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

"(ga) sections 13(1), 14(10), 19(7), 23(1) and 24(1) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (provisions relating to individual development plans);".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 1.9.2021, gweler **rhl. 1**

*Jeremy Miles*
Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

15 Gorffennaf 2021

(**16**) 2015 dccc 5.
(**17**) 2017 p. 4.
(**18**) 2020 p. 7.
(**19**) Mae diwygiadau i baragraff 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

PROSPECTIVE

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r Ddeddf honno'n diwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru cyfeiriadau mewn deddfwriaeth sylfaenol i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Statws**

Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Instrument yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- reg. 1 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 2 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 3 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 4 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 5 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 6 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 7 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 8 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 9 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 10 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1
- reg. 11 coming into force by S.I. 2021/861 reg. 1